Powys Arts Forum Conference
Caer Beris Manor Hotel,
Builth Wells, Powys LD2 3NP
June 11th & 12th 2010

Cynhadledd Fforwm Celf Powys Gwesty
Caer Beris Manor
Llanfair-ym-muallt, Powys LD2 3NP
Mehefin 11eg a 12fed 2010

Border Crossings a conference on collaborative working & rural networks in the arts

Croesi Ffiniau cydweithio a rhwydweithio gwledig ar gyfer y celfyddydau

If you're engaged in the arts – promoter, performer, visual artist, community activist, student, amateur or professional –this is your chance to meet with others, learn, share and plan for the future

Os oes gennych chi unrhyw beth i'w wneud â'r celfyddydau – hyrwyddwr, perfformiwr, artist perfformio, artist gweledol, actifydd cymunedol, myfyriwr, amatur neu broffesiynol – dyma'ch cyfle i gyfarfod ag eraill, dysgu, rhannu a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Cael cynulleidfaoedd gwell i'ch gwaith

Siarad ag eraill a chymharu nodiadau

*Cael gwybod am gymorth ar gyfer eich digwyddiad oddi wrth y Cynllun Noson Allan**

Dysgu sut mae'r Alban yn annog y celfyddydau mewn mannau gwledig

Beth fydd Theatr Genedlaethol Cymru'n ei olygu i weithgareddau theatr lleol?

Sut mae Cyngor Sir Powys yn helpu'r celfyddydau?

A allwn ni ddysgu oddi wrth Lwybrau Celf mewn mannau eraill?

A oes yna bobl y galla' i weithio gyda nhw yn fy ardal fy hun?

Gwneud yn siŵr eich bod chi'n rhan o Fis Celfyddydau 2011

** yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer sioeau proffesiynol yn y gymuned*

DYDD GWENER 11eg Mehefin 2010

Digwyddiad Dewisol - yn rhad ac am ddim os byddwch chi'n archebu lle ymlaen llaw

Bydd **Gweithdy Marchnata** dan arweinyddiaeth **Nick Beasley** o *Cynulleidfaoedd Cymru* yn eich helpu i gyrraedd y cynulleidfaoedd rydych chi eisiau eu cyrraedd. P'un a ydych chi'n trefnu digwyddiad un noson neu ŵyl fach, fe fydd hyn yn gyfle i ddysgu cyfrinion y grefft.

Bydd swper bwffe'n dilyn y gweithdy, a bydd hyn yn gyfle i drafod syniadau, cael gwybod lle i gael cymorth a gofyn cwestiynau ynglŷn â chynnal digwyddiadau yn eich cymunedau â **Pete Gregory** o'r cynllun *Noson Allan* ac eraill sydd â phrofiad eang o drefnu digwyddiadau.

DYDD SADWRN 12fed Mehefin

£40 am y diwrnod - £35 i Aelodau Fforwm Celf Powys

Robert Livingston o Hi~Arts, sef yr **Asiantaeth Datblygu Diwylliannol** ar gyfer Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, fydd y prif siaradwr. Bydd grwpiau trafod yn dilyn hyn, yn edrych ar sut i ddatblygu cysylltiadau gwell y tu mewn i Bowys a thu hwnt i'r sir.

Bydd **John McGrath, Cyfarwyddwr Theatr Genedlaethol newydd Cymru**, yn arwain trafodaeth ar gyfleoedd sydd ar gael i artistiaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys trafod y Theatr Genedlaethol newydd. Bydd Robert Livingston yn ychwanegu persbectif yr Alban, a bydd **Louise Ingham** (Rheolwr Celf a Diwylliant, Cyngor Sir Powys) yn siarad am sut mae'r Cyngor yn gweld ei rôl ei hun.

Mis Celfyddydau 2011. Yn sgil llwyddiant Ingredient X (2007) a Dyfarniadau Cyfle i Greu (2009), mae Fforwm Celf Powys yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau i'w cynnal yn 2011. Dyma'ch cyfle chi i awgrymu syniadau a chwarae rhan. Byddwn ni'n clywed sut mae llwybr celf hynod lwyddiannus *Helfa Gelf* yng Ngogledd Cymru'n gweithio, yn ogystal â chynlluniau eraill y gallem fod am iddyn nhw ein hysbrydoli.

Fe fydd yna gyfleoedd gydol y dydd i rwydweithio a chreu cysylltiadau defnyddiol, a daw'r diwrnod i ben â sesiwn ddychmygus yn casglu ynghyd y syniadau allweddol ar gyfer Mis Celfyddydau 2011. Dyma fydd eich cyfle i fod ar flaen y gad pan fydd y Celfyddydau ym Mhowys yn cymryd y naid nesaf ymlaen.

ARCHEBWCH AR-LEIN yn www.powysartsforum.org.uk neu cysylltwch â Philip Freeman ar 01686 688102 conference@powysartsforum.org.uk

Amserlen

Sylwch: mae'n bosibl y bydd amseroedd yn amrywio. Bwriedir hwn fel canllaw yn unig

Dydd Gwener 11eg Mehefin

Digwyddiad Dewisol - yn rhad ac am ddim os byddwch chi'n archebu lle ymlaen llaw
7pm MARCHNATA DIGWYDDIAD BACH gyda Nick Beasley (Cynulleidfaoedd Cymru)
8.30pm swper bwffe gyda Pete Gregory (Cynllun Noson Allan)

Dydd Sadwrn 12fed Mehefin

9.00am COFRESTRU
9.30am Cyflwyniad i Fforwm Celfyddydau Powys ac yna YR OLYGFA O'R UCHELDIROEDD - Robert Livingston
10.30am sesiynau mewn grwpiau
11.50am Y Theatr Genedlaethol – heriau a chyfleoedd gyda John McGrath

1.00pm cinio a rhwydweithio

2.30pm MIS CELFYDDYDAU 2011 enghreifftiau o arfer da ac yna sesiynau mewn grwpiau
4.00pm BWRW YMLAEN llunio cynllun ar gyfer y dyfodol.

Dewch ag unrhyw beth sydd wedi'i argraffu (taflenni, rhaglenni, posteri), ffotograffau neu unrhyw beth arall i'ch canlyn os hoffech eu rhannu ag eraill ac os ydyn nhw'n debygol o roi syniad o'r math o lwybr celf/gŵyl ledled y sir a allai ddigwydd ym Mhowys.

Mae **Fforwm Celfyddydau Powys** yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant (0598 5004) ac yn Elusen Gofrestredig (1119347).
I gael gwybod mwy am y Fforwm ac i gael y newyddion diweddaraf am y gynhadledd, ewch i'r wefan

www.powysartsforum.org.uk

FFURFLEN ARCHEBU

Enw .....

Cyfeiriad.....

Rhif Ffôn.....

Nos Wener byddaf/na fyddaf

Cynhadledd Dydd Sadwrn
Rwy'n amgáu siec am £40/£35/£30/£25 (dileëwch y rhai sy'n amherthnasol)

Pris Llawn £40 £35 i aelodau – gostyngiad o £5 os archebir lle cyn Mai 1af

Unrhyw anghenion o ran Diet?

Unrhyw anghenion o ran Mynediad?